Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mai 27 ain - 2015
am 7.00 o'r gloch.

1. Presennol - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Maldwyn Williams (MW), Gill Cheverton (GC), Alwena Roberts (AR) ac Alwyn Rowlands.

2.Ymddiheuriadau - Cyng. Mark Williams(tymor hir), Paul Gash, Lewis Davies, Rhian Hughes, Bari Gwilliam, a Carwyn Jones.

3. Datgan Ddiddordeb
MW ar drafodaeth Tyddyn Waun.

4.Cofnodion
Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Ebrill fel rhai cywir gan Cyng. A Roberts, eilio gan Cyng. M Williams, wrth newid un pwynt.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion
5.1 **Fynwent Llanddona** - dim newyddion ymhellach. Cadarnhawyd gan Cyng. A Rowlands bod yna arian i ddatblygu'r fynwent.
5.2 **Cerrig ger Llain Gron** - Trafodwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan y perchennog. Cyng. L Davies wedi gofyn cael cyfarfod ar y safle gyda swyddog o'r Cyngor Sir. Dim gwybodaeth bellach.
5.3 **Baw Cŵn –** Wedi anfon siec ymlaen am yr arwyddion.
5.4 **Biniau lleol -** Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir gan ofyn am fwy o finiau. Heb dderbyn ymateb eto. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
5.5 **Graeanu Lôn Hafoty -** Cyng. L Davies wedi cysylltu â Cyngor Cymuned Cwm Cadnant i roi pwysa ar y Cyngor Sir i newid blaenoriaeth y ffordd - dim gwybodaeth bellach. Cyng. L Davies i drafod y mater hefyd gyda Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.
5.6 **Lle parcio ger Tai Cyngor** – penderfynwyd gofyn i Cyng. L Davies gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.
5.7 **Dim arwyddion ar lwybr troed ger Fferm Glanrafon** - disgwyl mwy o wybodaeth oddi wrth BG.
5.8 **Llwybr Tai Bach -** Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir wrth ofyn a ydi llwybr ger Pensarn yn ddarn o'r Llwybr Tai Bach. Mae wedi bod yn llwybr cyhoeddus ers blynyddoedd. Hefyd wedi derbyn cwynion ynglŷn â chyflwr y trac dilyn gwaith gan berchennog Pensarn. Dal i ddisgwyl yr adrodd llawn.
5.9 **Cynllun Datblygu Lleol -** Diwrnod cynghori wedi dod i ben. Cyng. A Rowlands yn teimlo bod ormod o ddylanwad Gwynedd yn y cynllun. Clerc wedi anfon ymlaen sylwad gan y Cylch yr Iaith.
5.10 **Arwyddion Cymraeg** - MR ar ddeall fod y gwaith mewn llaw.
5.11 **Tir Tyddyn Waun** – gwaith papur wedi ei llofnodi a'i basio'n ôl i'r cyfreithiwr.
5.12 **Cyfarfod Peilonau** - cyfarfod gyda'r Grid Genedlaethol wedi ei drefnu ar 28/05/15 yn y Cyngor Sir am 3.30 ac wedyn bydd protest byr cyn y cyfarfod gyda Cynghorau Cymuned a Thref am 5.30. GC ac RH yn ymuno. MR wedi ymuno a chyfarfod Un Llais ar y mater yma.
MW yn adrodd bod prawf drilio wedi'i gynnal ym Mrynsiencyn a Felinheli.
5.13 **Grant Elusennol** - Clerc wedi trafod y mater gyda S Hunt, yn anffodus nid oedd ddigon o amser i roi gofynion y grant at ei gilydd.

6. Adroddiad gan y Cynghorydd
AR - Dilyn yr etholiad, mae newidiadau wedi cael i wneud ar y Pwyllgor gwaith. Prif Weithredwr yn ymddeol diwedd y mis gyda Dr G Jones yn cymryd drosodd mis Mehefin. Dim wedi penodi dirprwy hyd yn hyn.
Yn dilyn asesiad corfforaethol mae'r adroddiad interim wedi cael ei rhyddhau yn dangos bod materion wedi gwella.
GC yn adrodd - Pwyllgor y Neuadd wedi gofyn i'r Cyngor Sir am hawl unigryw i bwrcasu'r Ysgol, hefyd dal yn disgwyl am bris am yr adeilad. Pensaer eisoes wedi nodi nifer o bethau sy'n dirywio yno. AR i godi mater gydag Aelod Portffolio newydd.

7. Ceisiadau Cynllunio
- 22C194B - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi'u gadw ôl ym Mrynteg Cottage, Llanddona - dim sylwad.
- 22C224 – Cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am y fynedfa ar dir ger Tan y Ffordd, Llanddona – mae'r annedd yn cael ei leoli ger yr eiddo cyfagos ac mae ei ogwydd yn wahanol i eiddo eraill gerllaw.

- 22C169A - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Cae Bryntirion, Llanddona - mae'r eiddo presennol yn eithriadol o fawr yn barod i gymharu ag eiddo cyfagos. Cyngor Cymuned wedi derbyn cwyn gan berchennog cyfagos.

Er gwybodaeth
- 22C194C/SCR - barn sgrinio ar gyfer codi annedd ym Mrynteg Cottage, Llanddona - nid oes angen asesiad.
- 22C199A – cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethol yn Penhwnllys Plas – nid oes angen caniatad blaenorol.
- 22C148B – cais llawn ar gyfer creu menage ar gyfer defnydd preifat yn Tyddyn Bach, Llanddona – wedi ei caniatau.
- 22C194A - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ym Mrynteg Cottage, Llanddona - wedi ei caniatau.
- 22C44C/DEL – cais o dan adran 73 i dynnu amod yn Tyn Rardd, Sling – wedi ei caniatau.

8. Plot Glandŵr
Hawddfraint dros dir comin i blot Glyndŵr **-** disgwyl pris nawr gan y prisiwr, ffi am y gwaith hwn £150 +taw. Cyfreithiwr ar gyfer y perchennog wedi cytuno i dalu'r ffi. Cyng. M Williams ddim yn hapus gyda'r broses mae'r Cyngor Cymuned yn cymryd gyda'r cais yma. Cyng. M Roberts yn egluro bod y broses yn wahanol oherwydd bod mynedfa wedi ei greu dros y tir comin. Clerc i feindio allan os oes cais ar y plot.

9.Cyfrifon
Penderfynwyd talu:-
- AON Yswiriant 2015/16 - £244.10
- Awdit 2014/15 - ffurflen archwilio flynyddol wedi cwblhau a'i gymeradwyo gan y awditor mewnol. Hysbysiad penodi ar gyfer hawliau etholwyr wedi ei osod yn yr hysbysfwrdd gyda diwrnod cau o 28/06/15.
- Wedi derbyn preasept cyntaf £1,716.66

10. Ethol Is-Gadeirydd
Oherwydd nad oedd pob Cynghorydd yn bresennol, penderfynwyd symud yr etholiad ymlaen i gyfarfod nesaf.

11.Gohebiaeth
e-bost – Cyng. L Davies – llwybr Coch Mieri
e-bost – Cyng. L Davies, cyfarfod peilonau
llythyr – Cyngor Dref Biwmares, cyfarfod blynyddol
llythyr - Morgan Evans - plot Glyndŵr
Llythyr- cyfreithiwr plot Glyndŵr
Llythyr – Eglwys Sant Dona a Sant Iestyn
Llythyr – Cyngor Sir – llwybrau 15,22 a 61
e-bost – GC – llwybr Pensarn
e-bost - GC - plot Glyndŵr
e-bost - Cyng. L Davies - ffens tu ôl i 12 Maes Gwyn
e-bost – RH cwynion lleol
e-bost – Mr D Huntington, cwyn llwybr Llwyn Collen
e-bost – Glendale, torri coed ger yr Ysgol

12. UFA:
12.1 DP yn adrodd - mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu lleihau oriau agor dymp Penhesgyn, wrth gau bob dydd Mercher a dydd Iau.
12.2 Canclwm siapan yn tyfu ar y llwybr troed o Fron Deg at yr Ysgol. Clerc i gysylltu â Menter Môn.
12.3 Cais gan gwmni Glendale i dorri canghennau a chloddiau brifet sy'n agos i linellau pŵer. Penderfynwyd caniatáu'r gwaith.
12.4 Llwybr Coch Mieri - wedi derbyn cwyn ynglŷn ag ysbwriel blêr ar y llwybr ger y fferm. Wedi cysylltu ar Cyngor Sir, lle mae'r llwybr nawr wedi cael ei glanhau gan wirfoddolwyr.
12.6 O'r 1/04/15 mae'r Cyngor Sir nawr yn codi tal o £25 ar drigolion sydd wedi colli neu wedi difrodi ei biniau
12.7 LD wedi derbyn cwynion ynglŷn â ffens ar y llwybr cyhoeddus tŷ cefn i 12 Maes Gwyn sydd wedi dechrau disgyn. Mater yn ddwylo'r Cyngor Sir.
12.8 Wedi derbyn gorchymyn i wneud a:-

> gwyro rhan o lwybr 15 a 22 ger Ffynnon Oer
>cau rhan o lwybr troed 15 a 61 dros dro oherwydd tirlithriad
12.9 Glaswellt o amgylch maes chwarae plant ddim yn cael ei dorri. AR i feindio allan.
12.10 Crac yn y ffordd ger Llwyn Drain wedi cael ei llenwi.
12.11 Mae pant yn y ffordd rhwng Tan Rallt Bach a Cae Maes Mawr. Clerc i godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
12.12 Eisteddfod ddwyieithog Pobl Hyn Môn 4ydd a 25ain o Fedi yn Neuadd y Dref Llangefni.
12.13 Eglurhad ar gofrestri buddiannau –
> mae'n ofynnol i Gynghorydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfodydd. Rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig yn y lle cyntaf.
> Clerc i gofnodi'r llog yn y cyfarfodydd ar y gofrestr a rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, a'i gosod ar wefan y Cyngor Cymuned.
12.14 RH trwy e-bost - Arwydd llwybr ger Tŷ Gwyn wedi cael ei beintio drosodd. Hefyd cwyn gan y cyhoedd am wrychyn Tŷ Mawr. Clerc i drafod gyda SH a pherchennog Tŷ Mawr.
12.15 Cais Ponc y Felin – ymweliad ar safle wedi ei drefnu i drafod manylion y gwaith sydd ynghlwm ar grant.

13.<u>Dyddiad cyfarfod nesaf:</u>
Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.35 o'r gloch.
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 17/06/15 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd Dyddiad